

Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

**Dydd Llun, 17 Hydref 2011
11.00 – 16.00**

Ystafell y Cyngor, Prif Adeilad Parc Cathays, Prifysgol Caerdydd

Yn bresennol:

Cyfarwyddwyr:

Yr Athro R.Merfyn Jones, Cadeirydd
Yr Athro Aled Jones, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Jacqui Hare, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Helen Marshall, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Yr Athro Hywel Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Geraint James, Cyfarwyddwr Annibynnol
Gareth Pierce, Cyfarwyddwr Annibynnol
Linda Wyn, Cyfarwyddwr Annibynnol
Dr Hefin Jones, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Staff Academaidd
Luke Young, Cyfarwyddwr yn cynrychioli Myfyrwyr

Swyddogion:

Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (IM)
Dr Gwennan Schiavone, Ysgrifennydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (GS)
Dr Dafydd Trystan, Rheolwr Datblygu y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (DT)

Sylwedyddion:

Dr Alison Allan, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC/HEFCW)
Lisa Newberry, Addysg Uwch Cymru (yn bresennol ar gyfer rhan gyntaf y cyfarfod yn unig)

Ymddiheuriadau:

Yr Athro Medwin Hughes, Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch
Dr Ian Rees, Cyfarwyddwr Annibynnol

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1 Sylwadau Agoriadol	<p>1.1. Estynnwyd croeso i bawb gan y Cadeirydd, a nodwyd gair o ddiolch i Brifysgol Caerdydd am letya'r cyfarfod.</p> <p>1.2. Estynnwyd croeso arbennig i Luke Young, i'w gyfarfod cyntaf fel cyfarwyddwr yn cynrychioli myfyrwyr.</p> <p>1.3. Wrth agor y cyfarfod, cafwyd cyflwyniad byr gan IM yn crynhoi'r prif ddatblygiadau diweddar yng ngwaith y Coleg. Cyfeiriwyd at dair agwedd penodol o'r gwaith:</p> <p>(i) <u>Cynllun Staffio Academaidd</u> - nodwyd y gwaith sylweddol a gwblhawyd dros yr haf, er mwyn sicrhau penodiadau i'r swyddi a chytuno ar dargedau'r swyddi unigol. Nodwyd fod 24 penodiad eisoes wedi eu gwneud, ac mae trefniadau mewn lle ar gyfer y penodiad olaf o'r 25 swydd a ddyfarnwyd. Nodwyd fod y Cynllun eisoes wedi profi nad oes prinder ymgeiswyr cymwys a disglair ar gyfer swyddi academaidd cyfrwng Cymraeg, a hyderir y bydd ffrwyth gwaith y staff newydd yn arwain at gynnydd arwyddocaol yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ystod eu cyfnod mewn swydd. Nodwyd fod yna eisoes dystiolaeth yn ogystal o gydweithio a rhwydweithio rhwng y deiliaid ar draws y sefydliadau, a chroesewir hynny'n fawr.</p> <p>(ii) <u>Canghennau o'r Coleg yn y sefydliadau</u> - nodwyd fod rhai prifysgolion eisoes wedi sefydlu cangen o'r Coleg, a sicrhau presenoldeb gweladwy yn eu prifysgolion. Nodwyd fod y Coleg yn cydweithio â'r holl sefydliadau i sicrhau y bydd canghennau'n cael eu sefydlu yn y prifysgolion eraill cyn gynted â phosibl.</p> <p>(iii) <u>Niferoedd myfyrwyr / targedau</u> – nodwyd fod sicrhau cynnydd sylweddol yn y nifer o fyfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn her fawr. Nodwyd fod cynlluniau cyllido</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>presennol y Coleg yn mynd i'r afael â'r her o sicrhau cynnydd yn y ddarpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg, ond er mwyn ymateb i'r her o gynyddu niferoedd y cofrestriadau cyfrwng Cymraeg bydd angen cydweithio â, a sicrhau cydweithrediad llawn prifysgol a chyrrff a phartneriaid eraill.</p>		
<p>2 Cyflwyniad gan Dr Dafydd Trystan, Rheolwr Datblygu, ar (a) materion yn ymwneud â data a niferoedd myfyrwyr, a (b) amserlen ar gyfer llunio strategaeth academiaidd y Coleg</p>	<p>2.1. Cafwyd cyflwyniad ar ddata gan Dr Dafydd Trystan (DT) yn nodi'r sefyllfa fel ag yr oedd yn 2009/10. Wrth agor y cyflwyniad, nododd DT mai'r data swyddogol - data HESA - sy'n cael ei gyflwyno gan y sefydliadau i HEFCW , ac sy'n sail ar gyfer penderfyniadau cyllido gan HEFCW oedd y data a dadansoddwyd ar gyfer y cyflwyniad. Nodwyd fod data HESA yn cyflwyno gwybodaeth am bob myfyriwr ac aelod o staff, gyda chofnod o bob gweithgaredd academiaidd y maent yn ymgymryd af ef. Nodwyd mai data 2009/10 yw'r data mwyaf diweddar sydd ar gael ar hyn o bryd, a nodwyd yn fras y cyfyngiadau eraill ar yr agenda gan bwysleisio'r angen i ddeall cyd-destun y wybodaeth a gyflwynwyd. Nodwyd, er gwybodaeth, fod y strwythur ar gyfer cywain data yn cael ei fireinio ymhellach gan HEFCW eleni.</p> <p>2.2. Cafwyd amlinelliad o'r wybodaeth ynghylch addysg uwch cyfrwng Cymraeg sydd ar gael o fewn data HESA, a nodwyd y modd y diffinnir "astudio yn Gymraeg" wrth gywain y data.</p> <p>2.3. Cyflwynwyd y data fesul pwnc, a fesul sefydliad, a chafwyd darlun o'r sefyllfa genedlaethol.</p> <p>2.4. Wrth drafod y modd y mae'r data yn cael ei ddadansoddi, a'r modd y gellir defnyddio data at bwrpas cynllunio, cafwyd amlinelliad o dechneg dadansoddi 'Gap' sydd wedi ei ddatblygu gan Brifysgol Bangor, er mwyn adnabod y farchnad botensial ar</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>gyfer astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, drwy gymharu'r nifer o fyfyrwyr sy'n rhugl yn y Gymraeg, gyda'r nifer sy'n astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc. Nodwyd potensial y dull hwn o ddadansoddi data, a chafwyd braslun o'r darlun cenedlaethol (fesul pwnc, a sefydliad) ar sail ymarferiad ffigyrau yn seiliedig ar ddull 'Dadansoddiad Gap'. Nodwyd, fodd bynnag, fod angen gofal wrth ymgymryd ag ymarferiad o'r math yma, yn arbennig felly gan nad yw'r dadansoddiad yn ymdrin yn llawn â'r berthynas gymhleth a chyfnewidiol rhwng galw a chyflenwa. Pwysleisiwyd mai ymarferiad ffigyrau yn unig a oedd gerbron, yn hytrach na dadansoddiad i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer llunio polisi ac egwyddor.</p> <p>2.5. Wrth gloi'r cyflwyniad, amlinellwyd y targedau sydd wedi eu cyflwyno gan y sefydliadau, a'u cytuno gan HEFCW, mewn perthynas â chofrestriadau cyfrwng Cymraeg erbyn 2012/13. Nodwyd, gyda phryder, nad yw'r targedau sydd wedi eu cytuno gan HEFCW ar gyfer y sefydliadau, yn cyrraedd y targed sydd wedi ei osod gan y Llywodraeth ar gyfer y sector.</p> <p>2.5.1. Nodwyd fod y Coleg yn anfodlon ac yn bryderus iawn ynglŷn â'r sefyllfa hon, gan fod y ffigyrau eisoes wedi eu cytuno gyda'r sefydliadau, er na fyddai cyrraedd y targedau hyn yn galluogi'r sector i gyrraedd targed y Llywodraeth, a'r targed sydd wedi ei osod yn sgil hynny i'r Coleg.</p> <p>2.5.2. Cafwyd trafodaeth ynghylch y sefyllfa, ac ategodd y Cyfarwyddwyr bryder ac anfodlonrwydd y Coleg. Nodwyd yn glir y farn nad oedd y sefyllfa yn dderbyniol. Nodwyd, yn ogystal, yr angen i sylweddoli fod myfyrwyr blwyddyn gyntaf, ac ail flwyddyn y prifysgolion eisoes yn y system, ac yn cyfrannu at y ffigwr sydd wedi ei gynnwys yn y targed, ac mae hynny ynddo'i hyn yn golygu fod yr her yn fawr i gyrraedd y targed.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>2.5.3. Nodwyd anfodlonrwydd y Cyfarwyddwyr parthed y dull o gytuno ar y targedau unigol ar gyfer y sefydliadau, a nodwyd y farn, gan gyfarwyddwyr o'r sector, nad oedd ymateb HEFCW i'r targedau a gyflwynwyd gan y sefydliadau, yn annog y prifysgolion i fod yn ddigon uchelgeisiol. Nodwyd gwendidau'r drefn bresennol, a chytunwyd ar yr angen i ail-ystyried y fethodoleg ar gyfer gosod a chytuno ar dargedau o'r fath.</p> <p>2.5.4. Yn sgil yr anfodlonrwydd a fynegwyd gan y Cyfarwyddwyr, argymhellwyd y dylid cynnal trafodaeth fuan â swyddogion HEFCW, a dylid sicrhau fod sail a chyd-destun y targedau sydd wedi cytuno yn eglur i bawb. Nodwyd yr angen i sicrhau fod y Coleg yn gweld y targedau sy'n cael eu cynnig gan y sefydliadau, a'i fod yn rhan o'r broses o osod a chytuno ar dargedau yn y dyfodol.</p>		
3 Trafodaeth Strategol	<p>3.1 Wrth agor y drafodaeth strategol, nodwyd yr angen i'r Cyfarwyddwyr drafod ac ystyried yn ofalus y modd y byddent yn dymuno gweld strategaeth academiaidd y Coleg yn cael ei ddatblygu.</p> <p>3.2. Cafwyd trafodaeth fanwl ar yr egwyddorion y dylid eu cytuno fel sail ar gyfer llunio strategaeth academiaidd, gan gynnwys ystyriaeth fanwl o nodau, amcanion a chenhadaeth y Coleg mewn perthynas â datblygu, cynyddu, ehangu a dyfnhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>3.3 Nodwyd yr angen i sicrhau fod modd i'r Coleg gynnal deialog ar lefel uchel gyda'r holl sefydliadau, er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn yn y sector o waith ac amcanion y Coleg, a'r targedau mewn perthynas â darpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Nodwyd yn ogystal yr angen i sicrhau fforwm i'r Coleg gyfathrebu â'r sector, ac â'r Is-gangellorion yn benodol, a chytunwyd y byddai modd ymateb i hyn drwy wahodd IM i roi cyflwyniad i bwyllgor HEW.</p> <p>3.4. Yn sgil y drafodaeth, nodwyd nifer o bwyntiau y byddai angen ystyried a mynd i'r afael â hwy wrth lunio strategaeth academaidd y Coleg. Yn benodol, nodwyd y canlynol fel ffactorau allweddol:</p> <ul style="list-style-type: none"> (i) Pwysigrwydd sicrhau fod darpariaeth addysg uwch cyfrwng Cymraeg o'r safon uchaf; (ii) Pwysigrwydd dilyniant o'r sector addysg uwchradd a'r sector addysg bellach; (iii) Yr angen i ddeall, ac ystyried y ffactorau sydd wrth wraidd penderfyniadau myfyrwyr wrth iddynt ddewis pwnc, cyfrwng a lleoliad astudio. Yn y cyd-destun hwn, awgrymwyd y dylid ystyried cynnal ymchwil er mwyn ceisio deall dyheadau a sail penderfyniadau myfyrwyr, a darpar fyfyrwyr. (iv) Yr angen i ystyried fframwaith ar gyfer blaenoriaethu - gan gynnwys ystyriaeth o'r meysydd pynciol i'w blaenoriaethau, a'r egwyddor o ganoli neu ddatganoli darpariaeth; (v) Yr angen i ystyried rôl a phwysigrwydd cyd-weithio rhyngddisgyblaethol a/neu rhyng-sefydliadol. <p>3.5. Cafwyd amlinelliad o'r amserlen a'r broses ar gyfer paratoi drafft o strategaeth academaidd y Coleg. Nodwyd y byddai cyfarfod cyntaf y Bwrdd Academaidd yn cael ei gynnal ar 23 Tachwedd gyda'r nod o gytuno ar fframwaith ar gyfer y strategaeth, gyda chyfarfod pellach ym mis Ionawr i ystyried a chytuno ar strategaeth ddrafft i'w gyflwyno i ystyriaeth y Cyfarwyddwyr. Cadarnhawyd y byddai drafft llawn o'r strategaeth yn cael ei gyflwyno i'r Cyfarwyddwyr yn eu cyfarfod ar 29 Chwefror 2012.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	3.6. Wrth gloi'r drafodaeth, nodwyd gair o ddiolch i DT am ddarparu cyflwyniad hynod ddiddorol a defnyddiol.		
4 Ymddiheuriadau	<p>4.1. Nodwyd y derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Athro Medwin Hughes (Cyfarwyddwr Sector Addysg Uwch); a Dr Ian Rees (Cyfarwyddwr Annibynnol). Nodwyd ymddiheuriad gan Lisa Newberry, a oedd yn bresennol ar gyfer y cyfarfod yn y bore yn unig.</p> <p>4.2. Nodwyd fod yr Athro Medwin Hughes, a Dr Ian Rees wedi bod yn absennol o ddau gyfarfod yn olynol. Atgoffwyd yr aelodau o'r drefn gyfansoddiadol mewn perthynas ag aelodaeth a phresenoldeb cyfarwyddwyr, a chyfeiriwyd at Erthygl 33 (6) ym Memorandwm Cymdeithasu'r Coleg sy'n nodi y bydd cyfarwyddwr yn peidio â dal swydd os yw "yn absennol heb ganiatâd y cyfarwyddwyr o bob un o'u cyfarfodydd a gynhelir o fewn cyfnod o chwe mis yn olynol a bod y cyfarwyddwyr yn penderfynu y dylai ei swydd fod yn wag." Gan fod y naill gyfarwyddwr a'r llall yn absennol o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2011, yn ogystal â'r cyfarfod hwn, nodwyd ei bod yn ofynnol i aelodau'r Bwrdd drafod y sefyllfa a phenderfynu a oeddent yn barod i ganiatáu iddynt fod yn absennol o'r cyfarfod hwn, a drwy hynny eu caniatáu i barhau'n gyfarwyddwyr.</p> <p>4.2.1. Cytunodd y Bwrdd yn unfrydol i ganiatáu eu habsenoldeb y tro hwn, gan gydnabod y galwadau neilltuol ar amser y ddau gyfarwyddwr ar hyn o bryd.</p> <p>4.2.3. Nodwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu'n ffurfiol at yr Athro Medwin Hughes a Dr Ian Rees i'w hysbysu o'r penderfyniad, a'u hatgoffa o'r disgwyliad iddynt fod yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd.</p>	Y Cadeirydd i ysgrifennu'n ffurfiol at y ddau gyfarwyddwr.	Ar unwaith

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>5.1. Cyn dechrau'r cyfarfod, nodwyd ei bod yn fwriad i ychwanegu eitem barhaol ar ddechrau pob cyfarfod o Fwrdd y Cyfarwyddwyr er mwyn nodi unrhyw ddatganiadau pellach o fuddiannau cyfarwyddwyr. Nodwyd fod y gofrestr fuddiannau bresennol ar wefan y Coleg, a gwahoddwyd y cyfarwyddwyr i nodi unrhyw ddatganiadau pellach o ddiddordeb, neu ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion penodol sy'n codi yn y cyfarfod.</p> <p>4.3.1. Nododd Luke Young (LY) ei fod yn Sylwedydd ar Gyngor HEFCW, a chadarnhawyd y byddai'r gofrestr yn cael ei diweddarau yn sgil penodiad LY.</p>	Ysgrifennydd y Coleg i ddiweddarau'r gofrestr.	Ar unwaith.
5 Derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2011	6.1. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.		
7 Materion yn Codi	7.1. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.		
8 Gohebiaeth	8.1. Nid oedd unrhyw ohebiaeth i'w nodi.		
9 Materion Staffio (BC/11/03/09)	<p>9.1. Cafwyd adroddiad gan IM ar faterion staffio.</p> <p>9.1.1. Nodwyd fod materion cyflogaeth staff y Coleg bellach wedi eu datrys, a dechreuodd y Coleg gyflogi'r staff canolog yn uniongyrchol ar 1 Awst 2011. Nodwyd gair o ddiolch i brifysgolion Abertawe, Aberystwyth a Bangor a Phrifysgol Cymru: y Drindod Dewi Sant am ddarparu'r gwarant angenrheidiol i'r USS allu derbyn y Coleg fel cyflogwr i fod yn gymwys i fod yn aelod o'r cynllun pensiwn.</p> <p>9.1.2. Nodwyd fod tri aelod newydd o staff wedi eu penodi i'r Coleg yn sgil y penderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod diwethaf, a nodwyd</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>fod dau aelod o staff a fu'n gweithio i'r Coleg yn ystod cyfnodau mamolaeth dau aelod o staff parhaol y Coleg bellach wedi gadael.</p> <p>9.1.3. Gan fod Coleg bellach yn cyflogi staff yn uniongyrchol, nodwyd ei bod yn ofynnol i fabwysiadu graddfeydd cyflogaeth. Cynigiwyd, a chymeradwywyd y cynnig fod y Coleg yn mabwysiadu graddfeydd cyflog yn seiliedig ar raddfeydd Prifysgol Cymru: Y Drindod Dewi Sant, sef cyflogwr blaenorol y staff a drosglwyddwyd i'r Coleg drwy broses TUPE.</p> <p>9.1.4. Yn unol â'r cynnig yn y papur, cymeradwywyd y bwriad i asesu holl swyddi'r Coleg o fewn fframwaith HERA. Cytunwyd yn ogystal y dylid sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth.</p>	Argymhellion i'w gweithredu.	Ar unwaith.
<p>10 Llywodraethu (BC/11/03/10)</p>	<p>10.1. Nodwyd fod cofrestriad y Coleg gyda'r Comisiwn Elusennau bellach wedi ei gwblhau. Rhif Elusen y Coleg yw 1143525.</p> <p>10.2. Nodwyd fod Katie Dalton wedi ymddiswyddo fel un o gyfarwyddwyr y Coleg ar 30 Mehefin 2011, yn dilyn diwedd ei thymor fel Llywydd Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru [UCMC]. Nodwyd fod UCMC wedi enwebu Luke Young i weithredu fel Cyfarwyddwr, a chymeradwywyd y penodiad yn ffurfiol gan y Cyfarwyddwyr.</p> <p>10.3. Nodwyd fod drafft terfynol o'r Cod Ymarfer wedi ei ddogfen cyn y cyfarfod, a gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo'r ddogfen a'i fabwysiadu'n ffurfiol.</p> <p>10.3.1. Nodwyd rhai mân awgrymiadau i gynnwys y ddogfen, ac awgrymwyd y dylid ystyried addasu adrannau o'r Cod yn wyneb y ffaith fod y Coleg bellach yn elusen, er mwyn mabwysiadu elfennau eraill sy'n berthnasol i gorff sy'n elusen.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>10.3.2. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn adolygu cynnwys y Cod, ac yn darparu drafft pellach o'r ddogfen i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr. Cytunwyd y dylid dilyn y trefniadau a'r polisiau a amlinellir yn y ddogfen ddrafft tan fod fersiwn diwygiedig wedi ei gytuno.</p> <p>10.4. Pwyllgor Penodiadau - Nodwyd y trefniadau a gytunwyd yng nghyfarfod y Bwrdd ar 27 Mehefin ar gyfer penodi ac ail-benodi Cyfarwyddwyr. Nodwyd y bwriad i hysbysebu'n gyhoeddus am ddau aelod allanol o'r pwyllgor ym mis Tachwedd, a chytunwyd y byddai Cadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr yn argymhell enw unigolyn i ymgymryd â swyddogaeth cadeirydd y Pwyllgor Penodiadau, i'w gadarnhau gan y Cyfarwyddwyr ym mis Rhagfyr.</p> <p>10.5. Cyfarfod Blynyddol y Coleg – Nodwyd y cynhelir cyfarfod blynyddol cyntaf y Coleg ar 28 Chwefror 2012 yn Abertawe, Nodwyd sefyllfa gyfansoddiadol y cyfarfod, a chadarnhawyd y bydd sefydliadau addysg uwch sy'n rhan o'r Coleg, ac aelodau rhanddeiliadol y Coleg yn cael eu gwahodd i enwebu cynrychiolydd i fynychu Cyfarfod Blynyddol y Coleg.</p> <p>10.6 Gwahoddwyd y Bwrdd i ystyried y posibilrwydd o anrhydeddu unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i addysg uwch cyfrwng Cymraeg (gan gynnwys cyfraniad pwysig at sefydlu'r Coleg) mewn digwyddiad y gellid ei gynnal ar ddiwrnod y Cyfarfod Blynyddol. Cafwyd trafodaeth ar y mater, a chefnogwyd y bwriad. Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn trafod y mater ymhellach gyda'r Cadeirydd, ac yn cyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i drafod y mater ymhellach gyda'r Cadeirydd, a chyflwyno argymhellion i'w hystyried gan y Cyfarwyddwyr.</p>	<p>Rhagfyr 2011</p>
11 Materion Cyllid	11.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur gan DT. Nodwyd y cyflwynwyd		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
(BC/11/03/11)	<p>cyfrifon rheoli'r cyfnod rhwng hyd at 31 Gorffennaf 2011 i'r Pwyllgor Archwilio ar fore'r cyfarfod, a chadarnhawyd y byddai'r Coleg yn cyflwyno cyfrifon rheoli i HEFCW bob 3 mis o 31 Hydref 2011 ymlaen. Bydd y cyfrifon rheoli chwarterol hyn hefyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo ffurf y cyfrifon rheoli, yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Archwilio, a chytunwyd i hynny.</p> <p>11.2. Nodwyd ei bod yn ofynnol i gyflwyno cyfrifon y Coleg ar gyfer cyfnod hyd at 31 Gorffennaf 2011 i HEFCW cyn diwedd Rhagfyr 2011, yn dilyn yr archwiliad allanol sydd i'w gwblhau ym mis Tachwedd. Nodwyd yr angen i gynnal cyfarfod neilltuoel o'r Bwrdd i dderbyn y cyfrifon yn ffurfiol, a chytunwyd y byddai GS yn cylchredeg dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>11.3. Nodwyd fod Cyfansoddiad y Coleg yn nodi bod modd 'neilltuo cronfa wrth gefn yn erbyn gwariant yn y dyfodol ond dim ond yn unol â pholisi ysgrifenedig ar gronfeydd wrth gefn'. Trafodwyd yr angen i'r Coleg fabwysiadu polisi mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn, yn dilyn trafodaeth gychwynnol a gynhaliwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio, a chytunwyd y byddai polisi drafft yn cael ei baratoi i'w fabwysiadu gan y Cyfarwyddwyr.</p>	<p>GS i gylchredeg dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod.</p> <p>Pwyllgor Archwilio i gyflwyno polisi drafft i'w fabwysiadu gan y Cyfarwyddwyr.</p>	<p>31 Hydref 2011</p> <p>Rhagfyr 2011.</p>
<p>12 Materion Archwilio (BC/11/03/12)</p>	<p>12.1. Gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2011, ac fe'u derbyniwyd yn ffurfiol.</p> <p>12.2. Cafwyd adroddiad gan Geraint James (GJ), Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, ar drafodaeth a phenderfyniadau'r Pwyllgor Archwilio ar gyfarfu ar fore'r cyfarfod, a nodwyd y canlynol: (i) Rheoliadau Ariannol - nodwyd fod rhai elfennau pellach i'w</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>hychwanegu i'r rheoliadau, ond cadarnhawyd fod y rheoliadau, yn eu ffurf bresennol yn llawn weithredol.</p> <p>(ii) Penodi Archwilwyr Allanol - amlinellwyd y broses ffurfiol ar gyfer penodi archwilwyr allanol ar gyfer y Coleg, a nodwyd fod cwmni Price Waterhouse Coopers (PwC) wedi eu gwahodd i ddarparu cyflwyniad i'r Pwyllgor Archwilio yn sgil y cais a gyflwynwyd ganddynt fel rhan o'r broses dendro. Nodwyd fod y Pwyllgor Archwilio yn argymhell y dylai'r Bwrdd benodi PwC yn archwilwyr allanol am gyfnod o ddwy flynedd a hanner, a chymeradwywyd yr argymhelliad.</p> <p>(iii) Penodi Archwilwyr Mewnol – nodwyd fod y Coleg wedi hysbysebu am archwilwyr mewnol, ond gan na lwyddwyd i benodi ar yr ymgais gyntaf, penderfynwyd ail-hysbysebu gan osod dyddiad cau ym mis Tachwedd.</p> <p>(iv) Cofrestr Risgiau - nodwyd y cyflwynwyd cofrestr drafft gan swyddogion y Coleg, a chafwyd trafodaeth ar y ddogfen yn y cyfarfod. Nodwyd y bydd swyddogion y Coleg yn paratoi drafft pellach o'r gofrestr er mwyn ymgorffori'r sylwadau a gyflwynwyd yn y cyfarfod.</p>		
<p>13 Amserlen ar gyfer adolygu cytundebau'r Coleg (BC/11/03/13)</p>	<p>13.1. Gofynnwyd i'r cyfieithwyr adael y cyfarfod ar gyfer yr eitem hon, gan fod y cytundeb dan drafodaeth yn ymwneud â gwasanaethau tendro'r Coleg, gan gynnwys y gwasanaeth cyfieithu.</p> <p>13.2. Nodwyd ac ystyriwyd yr argymhelliad yn y papur parthed yr amserlen ar gyfer adolygu holl gytundebau'r Coleg gyda darparwyr allanol.</p> <p>13.3 Cymeradwywyd yr amserlen fel y'i hamlinellwyd yn Atodiad 13/1 yn amodol ar ymgorffori'r newidiadau a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwyr.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i ymgorffori'r newidiadau a argymhellwyd gan y Cyfarwyddwyr, ac i weithredu yn unol â'r amserlen derfynol.</p>	<p>Ar unwaith / yn unol â'r amserlen.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>14 Cynllun Strategol y Coleg (BC/11/03/14)</p>	<p>14.1. Nodwyd fod swyddogion y Coleg wedi cynnal trafodaethau pellach â swyddogion HEFCW ac aelodau Grŵp Ymgynghorol y Coleg ar gynnwys Cynllun Strategol drafft y Coleg, yn dilyn cyfarfod y Bwrdd ar 27 Mehefin. Dosbarthwyd drafft diwygiedig o'r Cynllun ar 21, ar ffurf cylchlythyr ymgynghorol, a gwahoddwyd sylwadau erbyn 10 Hydref.</p> <p>14.2. Nododd IM y sylwadau a ddaeth i law yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gwahoddwyd sylwadau pellach gan y Cyfarwyddwyr.</p> <p>14.3. Cafwyd trafodaeth ar gynnwys y Cynllun Strategol drafft, a nodwyd yn benodol yr angen i ail-edrych ar gynnwys y targedau a nodwyd yn Thema Allweddol 2 a 4.</p> <p>14.4 Cytunwyd y byddai swyddogion y Coleg yn llunio drafft diwygiedig o'r ddogfen, a fyddai'n ymgorffori sylwadau'r Cyfarwyddwyr, ac yn seiliedig ar ystyriaeth lawn o'r sylwadau a ddaeth i law yn ystod y broses ymgynghori, ac yn ei ddosbarthu i'r Cyfarwyddwyr, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i HEFCW.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i lunio drafft diwygiedig o'r Cynllun Strategol a'i ddosbarthu i'r Cyfarwyddwyr, cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i HEFCW.</p>	<p>Tachwedd / Rhagfyr 2011.</p>
<p>15 Cynllun Gweithredu Drafft 2011/12 (BC/11/03/15)</p>	<p>15.1. Cafwyd cyflwyniad gan IM ar gynnwys cynllun gweithredu drafft y Coleg ar gyfer 2011/12. Nodwyd ei bod yn ofynnol i'r Coleg gyflwyno Cynllun Gweithredu blynyddol i HEFCW, a chadarnhawyd bod fersiwn blaenorol o'r ddogfen a oedd gerbron wedi ei drafod a'i chytuno â swyddogion HEFCW ym mis Gorffennaf 2011.</p> <p>15.2. Gwahoddwyd sylwadau gan y Bwrdd ar gynnwys y ddogfen. Nododd y Cyfarwyddwyr yr angen i sicrhau fod y Cynllun yn nodi, lle bo'n briodol, fod rhai cynlluniau a thargedau yn ddibynnol ar gydweithrediad partneriaid a / neu gyrff 3ydd</p>	<p>Swyddogion y Coleg i ddiwygio'r ddogfen fel ag y bo'n briodol.</p>	<p>Tachwedd 2011.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>parti.</p> <p>15.3. Cymeradwywyd y ddogfen fel sail ar gyfer fersiwn terfynol i'w gyflwyno i HEFCW ym mis Tachwedd.</p>		
<p>16 Bwrdd Academaidd y Coleg (BC/11/03/16)</p>	<p>16.1. Cyflwynwyd y papur, a nodwyd y camau gweithredu a gwblhawyd gan swyddogion y Coleg yn dilyn cyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 27 Mehefin, mewn perthynas â sefydlu'r Bwrdd Academaidd, a nodwyd y cylch gorchwyl diwygiedig a amlinellwyd yn Atodiad 16/1.</p> <p>16.2. Nodwyd y dosbarthwyd cylchlythyr i'r sefydliadau ym mis Gorffennaf (Cyf: 11/05) yn eu gwahodd i gyflwyno enwebiadau ar gyfer yr aelodau sefydliadol i weithredu ar y Bwrdd Academaidd, a nodwyd yr enwebiadau a ddaeth i law (Atodiad 16/2). Nodwyd fod un enwebiad pellach wedi dod i law ers adeg llunio'r papur, a chadarnhawyd fod rhai enwebiadau eto i'w cyflwyno.</p> <p>16.3. Nodwyd fod y Coleg, yn unol â'r cylch gorchwyl, yn gyfrifol am benodi deuddeg o academyddion, yn meddu ar arbenigedd ar draws ystod o feysydd i wasanaethu ar y Bwrdd, am ddwy flynedd yn y lle cyntaf. Dosbarthwyd rhestr o unigolion wedi eu henwebu gan y Coleg, mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Ymgynghorol, a gwahoddwyd y Bwrdd i gymeradwyo'r rhestr ar sail y profiad a'r arbenigedd sydd gan yr academyddion i'w gynnig i'r Bwrdd Academaidd.</p> <p>16.4. Nodwyd y gwahoddwyd Colegau Cymru i gyflwyno dau enwebiad i weithredu fel cynrychiolwyr o'r sector addysg bellach ar y Bwrdd Academaidd, ond nid oedd yr enwebiadau wedi dod i law.</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	16.5. Nodwyd, a derbyniwyd y cynnig fod modd i Gadeirydd y Coleg, petai'n dymuno, fynychu cyfarfodydd y Bwrdd Academaidd, fel sylwedydd.		
17 I dderbyn ac ystyried Cytundeb Cyllido rhwng y Coleg a'r sefydliadau (BC/11/03/17)	<p>17.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur a nodwyd cyd-destun llunio'r Cytundeb Cyllido drafft rhwng y Coleg a'r sefydliadau addysg uwch (Atodiad 17/1). Nodwyd y byddai'r cytundeb, yn amodol ar dderbyn sylwadau'r Bwrdd, a chyingor gan gyfreithwyr y Coleg, yn cael ei gylchredeg i'r holl sefydliadau sy'n derbyn unrhyw grant gan y Coleg i'w arwyddo.</p> <p>17.2. Cytunodd y Bwrdd i gymeradwyo'r Cytundeb fel sail ar gyfer pob grant a ddarperir gan y Coleg, yn amodol ar ddiwygio'r ddogfen yn unol ag unrhyw sylwadau a newidiadau a gyflwynwyd gan gyfreithwyr y Coleg.</p>		
18 I dderbyn ac ystyried argymhellion ar gyfer sefydlu canghennau o'r Coleg yn y sefydliadau ac adolygu swyddogaeth y Swyddogion Cydlynu (BC/11/03/18)	<p>18.1. Nodwyd cynnwys y cylchlythyr (Atodiad 18/1), a'r camau a'r amserlen a amlinellwyd yn y ddogfen parthed y broses o sefydlu canghennau o'r Coleg yn y prifysgolion.</p> <p>18.2. Nodwyd yr argymhellion parthed adolygu swyddogaeth y Swyddogion Cydlynu, a'r angen i gytuno ar y model gorau ar gyfer cefnogi'r swyddi cydlynu, a drwy hynny ddarparu cefnogaeth ymarferol i'r canghennau gyflawni eu gwaith. Cytunwyd ar argymhellion penodol parthed adolygu'r swyddi, a chytunwyd i awdurdodi swyddogion y Coleg i weithredu yn unol â'r argymhelliad.</p> <p>18.3. Yn ychwanegol i'r argymhellion yn y papur, ystyriwyd dau argymhelliad pellach, a phenderfynwyd fel a ganlyn: (i) Cytunwyd y dylid ystyried sut y gall y Coleg ddarparu cefnogaeth i brifysgolion lle nad oes swyddogion cydlynu, a</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhelliad.</p> <p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith.</p> <p>Ar unwaith.</p>


Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>chytunwyd, yn y lle cyntaf y dylid darparu rhywfaint o gefnogaeth yn y flwyddyn academaidd hon i Brifysgol Casnewydd;</p> <p>(ii) Trafodwyd yr argymhelliad i archwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu gofodau ym mhob sefydliad lle ceir cangen o'r Coleg, er mwyn hwyluso darpariaeth gydweithredol drwy ddefnydd o'r rhwydwaith fideo gynadledda a dulliau amgen eraill. Cytunwyd y dylid bwrw ymlaen i archwilio i'r posibiliadau.</p>		
<p>19 I dderbyn ac ystyried argymhellion ar gyfer sefydlu Cymdeithas Cyfeillion y Coleg, gan gynnwys cyfansoddiad drafft (BC/11/03/19)</p>	<p>19.1. Nodwyd cyd-destun y papur, a chefnidir yr argymhelliad i sefydlu elusen 'Cyfeillion y Coleg' a fyddai'n datblygu ei weithgareddau ei hun, ond hefyd yn sefydlu cronfa er mwyn dyfarnu gwobrau ac ysgoloriaethau amrywiol i fyfyrwyr a fyddai'n astudio mewn prifysgol yng Nghymru.</p> <p>19.2. Nodwyd fod Swyddog Cyhoeddiadau'r Coleg yn cynorthwyo gyda'r gwaith o lunio cyfansoddiad i'r elusen, a nodwyd fod Cadeirydd y Bwrdd wedi cymeradwyo argymhelliad i wahodd Dr Meredydd Evans i fod yn Llywydd Anrhydeddus ar y Cyfeillion, fel cydnabyddiaeth o'i gyfraniad aruthrol i iaith a diwylliant Cymru.</p> <p>19.3. Cytunodd yr aelodau i gymeradwyo'r cynllun i sefydlu 'Cyfeillion y Coleg'.</p>		
<p>20 I dderbyn adroddiad, i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido, ar gynlluniau ysgoloriaethau israddedig a Lefel M y Coleg (BC/11/03/20)</p>	<p>20.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur, a chrynodeb o gynnwys yr adroddiad ar weithrediad y Cynllun Ysgoloriaethau Israddedig yn 2011/2, ac amlinelliad o'r camau nesaf ar gyfer 2012/13.</p> <p>20.2. Nodwyd fod swyddogion y Coleg wedi trafod yr adroddiad gyda swyddogion HEFCW ers llunio'r papur, a nodwyd y bwriad i gyflwyno cais i'r Llywodraeth ganiatáu i'r Coleg wahodd mwy o</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>geisiadau am ysgoloriaethau cymhelliant gan nad oedd yr holl ysgoloriaethau wedi eu dyfarnu erbyn Medi 2011.</p> <p>20.3. Nodwyd cynnwys y papur a'r adroddiad, a chymeradwywyd y bwriad i gynnal adolygiad o'r cynlluniau ysgoloriaethau cyn dechrau blwyddyn academaidd 2014/15.</p>		
<p>21 Cynllun Staffio Academaidd 2012/13: trefniadau ar gyfer ystyried a chymeradwyo argymhellion (BC/11/03/21)</p>	<p>21.1. Wrth gyflwyno'r papur, nododd IM yr angen i gytuno ar amserlen derfynol ar gyfer y broses o ddyfarnu swyddi y Cynllun Staffio Academaidd ar gyfer 2012/13, er mwyn sicrhau fod y prosesau penodi wedi eu cwblhau yn llawn mewn da bryd cyn dechrau blwyddyn academaidd 2012/13.</p> <p>21.2. Nodwyd yr amserlen a amlinellwyd yn y papur, a nodwyd un argymhelliad pellach parthed yr amserlen, sef yr awgrym y gellid cylchredeg argymhellion y panel dyfarnu i'r Cyfarwyddwyr yn union wedi cyfarfod y panel ar 12 Rhagfyr, fel bod modd ystyried yr argymhellion, a'u cymeradwyo cyn y Nadolig. Cymeradwywyd yr amserlen ar holl gamau'r broses ddyfarnu.</p> <p>21.2. Gwahoddwyd y Cyfarwyddwyr i ystyried yr argymhelliad yn y papur parthed aelodaeth y panel dyfarnu. Ers llunio'r papur, nodwyd bod un o'r aelodau posibl bellach wedi cadarnhau na fyddai mewn sefyllfa i fod yn aelod, ac felly byddai'n ofynnol i benodi dau aelod allanol, yn hytrach nag un fel y nodwyd yn y papur. Cymeradwywyd yr argymhelliad parthed aelodaeth y panel dyfarnu, ac awdurdodwyd swyddogion y Coleg i benodi dau aelod allanol, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd.</p> <p>21.3 Adroddodd IM fod Prifysgol Bangor wedi gwneud cais i newid ffocws un o'r swyddi a ddyfarnwyd iddynt ar gyfer 2011/12 o faes Gwaith Cymdeithasol i faes Gwyddorau Cymdeithas. Mae'r ddau faes o fewn yr un adran academaidd yn y</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Brifysgol. Cytunodd y Cyfarwyddwyr i ganiatau'r cais hwn.</p> <p>[Mynegodd Wyn Thomas ddiddordeb yn yr eitem hon ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth].</p> <p>21.4 Adroddodd IM ymhellach ar y penodiad i swydd ym maes Hanesyddiaeth, ar fodel lle'r oedd y Coleg wedi hysbysebu swydd, gan wahodd sefydliadau i'w chartrefu, a phenderfynu ar leoliad yn dilyn y penodiad. Mae'r swydd hon wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Abertawe, Nodwyd fod posibilrwydd i arbrofi ymhellach gyda'r model hwn yn 2012/13 gyda swydd ym maes Athroniaeth.</p>		
<p>22 Cronfa Datblygiadau Strategol: i ystyried dyraniadau pellach o'r Gronfa ac amserlen ar gyfer gwahodd ceisiadau gan y sefydliadau (BC/11/03/22)</p>	<p>22.1. Cafwyd cyflwyniad i'r papur gan GS, a darparwyd diweddariad llawn ar weithrediad Cronfa Datblygiadau Strategol y Coleg, ynghyd ag amlinelliad o'r argymhellion yr oedd yn ofynnol i'r Bwrdd eu hystyried.</p> <p>22.2. Nodwyd, ac ystyriwd yr argymhellion yn y papur yn eu tro, a chytunwyd fel a ganlyn:</p> <p>(i) Cymeradwywyd yr argymhellion ar gyfer dyfarniadau pellach o'r Gronfa ar gyfer 2011/12, fel y'u nodwyd yn Atodiad 22/1.</p> <p>(ii) Cymeradwywyd yr argymhelliad y dylid cefnogi'r cynllun i ddatblygu 'Porth Cyflogadwyedd' i fyfyrwyr a chyfeirio'r mater i ystyriaeth 'Grŵp Profiad Myfyrwyr' y Coleg, gyda'r amcan o ddatblygu cynllun cenedlaethol.</p> <p>(iii) Cymeradwywyd yr argymhelliad i ymestyn y ddau brosiect cenedlaethol a nodwyd yn y papur (Cydlynnydd Academiaidd mewn Cerddoriaeth, a Swyddog Datblygu'r Gymraeg fel pwnc gradd) hyd 31 Awst 2014, a'u hadolygu'n ffurfiol cyn y dyddiad hwnnw.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i weithredu'n unol â'r argymhellion.</p>	<p>Ar unwaith.</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
<p>23 Cadarnhau ffioedd y Coleg ar gyfer aelodau paneli dyfarnu a darparwyr hyfforddiant ar y rhaglen datblygu staff</p>	<p>23.1. Nodwyd yr angen i gadarnhau'r ffioedd a gynigir i unigolion sy'n ymgymryd â gwaith gan y Coleg, megis aelodaeth o baneli dyfarnu neu ddarparu hyfforddiant ar raglen datblygu staff y Coleg. Nodwyd y byddai swyddogion y Coleg yn cylchredeg rhestr o ffioedd, i'w cymeradwyo gan y Cyfarwyddwyr cyn y cyfarfod nesaf.</p> <p>23.2. Cytunwyd i'r drefn ar gyfer cadarnhau'r ffioedd, a chytunwyd y dylid adolygu cyfradd y ffioedd yn flynyddol.</p>	<p>Swyddogion y Coleg i gylchredeg y rhestr o ffioedd i'r Cyfarwyddwyr, i'w cymeradwyo erbyn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>Rhagfyr 2011.</p>
<p>24 I gytuno ar thema ar gyfer trafodaeth strategol yn y cyfarfod ar 29 Chwefror 2012 (Drafft Cyntaf Strategaeth Academaidd y Coleg)</p>	<p>24.1. Cytunwyd mai drafft cyntaf Strategaeth Academaidd y Coleg fyddai sail y drafodaeth strategol yng nghyfarfod Bwrdd y Cyfarwyddwyr ar 29 Chwefror 2012.</p>		
<p>25 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf</p>	<p>25.1. Cadarnhawyd y byddai GS yn cylchredeg dyddiadau posibl ar gyfer cyfarfod o'r Bwrdd i dderbyn Cyfrifon archwiliedig y Coleg ym mis Rhagfyr 2011.</p> <p>25.2. Nodwyd y cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd yn 2012, ar 29 Chwefror 2012, yn Abertawe.</p>		

Derbyniwyd a chymeradwywyd y cofnodion yn ffurfiol yng nghyfarfod Bwrdd Cyfarwyddwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gynhaliwyd ddydd Mawrth, 13 Rhagfyr 2011, drwy'r Rhwydwaith Fideo Gynadledda.

Llofnod: 

(Yr Athro R. Merfyn Jones, Cadeirydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol)

Dyddiad: 13/12/11